# Paratoi offer weldio trydanol ar gyfer ei ddefnyddio

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn cynnwys sut i baratoi offer weldio trydanol ar gyfer ei ddefnyddio. Bydd angen i chi sicrhau bod yr offer a'r cysylltiadau yn ddiogel, wedi eu harchwilio a'u profi a gweithredu os nad yw'r offer yn gweithio'n gywir. Mae'n rhaid i chi sicrhau bod yr offer yn cael ei storio mewn amgylchedd glân, sych a diogel.

Mae'n bwysig eich bod yn gwybod ac yn deall eich cyfrifoldebau yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, codau ymarfer a pholisïau'r busnes.

Mae'r safon hon ar gyfer y rheiny sy'n defnyddio offer weldio trydanol.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. gwneud eich gwaith yn unol â'r ddeddfwriaeth amgylcheddol ac iechyd a diogelwch perthnasol, codau ymarfer a pholisïau'r busnes
2. dewis a gwisgo dillad a chyfarpar diogelu personol (PPE) addas
3. cynnal diogelwch a diogeledd offer a chyfarpar ar y safle yn unol â deddfwriaeth berthnasol a pholisi busnes
4. dewis a pharatoi'r offer a'r cyfarpar sy'n ofynnol ar gyfer weldio trydanol yn unol â deddfwriaeth berthnasol, canllawiau'r cynhyrchydd a pholisi busnes
5. cadarnhau bod yr offer a'r cysylltiadau wedi eu harchwilio, eu profi ac yn barod i'w defnyddio yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, canllawiau'r cynhyrchydd a pholisi busnes
6. gweithredu yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, canllawiau cynhyrchu a pholisi busnes pan nad yw'r offer yn gweithio fel sydd angen
7. paratoi'r ardal waith ar gyfer y gweithgareddau weldio yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, canllawiau'r cynhyrchydd a pholisi busnes
8. glanhau a storio'r offer a'r deunyddiau weldio yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, canllawiau'r cynhyrchydd a pholisi busnes
9. parhau i gyfathrebu gyda phawb sydd yn gysylltiedig â'ch gwaith, neu wedi eu heffeithio ganddo
10. cadarnhau bod cofnodion wedi eu cwblhau, eu cynnal a'u storio fel sy'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth berthnasol ac arferion busnes

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth amgylcheddol ac iechyd a diogelwch perthnasol, codau ymarfer a pholisïau busnes
2. y math o ddillad a chyfarpar diogelu personol (PPE) sydd yn addas ar gyfer y gweithgaredd
3. y mathau o offer weldio trydanol sydd ar gael a sut i'w cynnal a'u storio yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, canllawiau'r cynhyrchydd a pholisi busnes
4. sut i gadarnhau bod yr offer a'r cysylltiadau yn ddiogel ar gyfer eu defnyddio, wedi eu harchwilio a'u profi yn unol â deddfwriaeth berthnasol, canllawiau'r cynhyrchydd a pholisi busnes
5. sut i baratoi offer weldio trydanol ar gyfer ei ddefnyddio
6. pwysigrwydd mathau gwahanol o electrodau a ddefnyddir mewn weldio trydanol gan ystyried cydweddoldeb a deunyddiau nad ydynt yn cydweddu a dysgu i adnabod y mathau gwahanol
7. pwysigrwydd peidio defnyddio offer weldio nad yw'n gweithio'n iawn a'r camau i'w cymryd yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, canllawiau'r cynhyrchydd a pholisi busnes
8. sut i adnabod y mathau gwahanol o wydr hidlo a phryd i'w defnyddio
9. pwysigrwydd awyru wrth weldio
10. pwysigrwydd parhau i gyfathrebu gyda'r rheiny sydd yn gysylltiedig â'ch gwaith, a sut dylid gwneud hyn
11. y cofnodion y mae angen eu cadw a phwysigrwydd eu cwblhau yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol ac arferion busnes

## Geirfa

**Camau i'w cymryd pan nad yw offer weldio yn gweithio'n iawn:**

- adrodd
- cofnodi
- unioni

**Gofynion storio ar gyfer offer weldio:**

- glân
- sych
- tymheredd wedi ei reoleiddio

**Y mathau o offer weldio:**

- nwyon anadweithiol metel (MIG)
- arc fetel llaw

Paratoi offer weldio trydanol ar gyfer ei ddefnyddio

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 30 Maw 2020 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 30 Maw 2025 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANFAR12 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Pedoli, Crefftau Medrus Amaethyddol a Garddwriaethol, Gof |
| **Cyfres/Set** | Pedolwr |
| **Geiriau Allweddol** | metel, pedolwr, weldio, gwydr hidlo |